# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Prif ddarpariaethau*

**4 Canllawiau ar arfer swyddogaethau yn y cyfnod cyn yr etholiad**

(1) Rhaid i'r Prif Weinidog gyhoeddi canllawiau ynghylch arfer swyddogaethau'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ar gyfer etholiad 2021.

(2) Rhaid i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol roi sylw i'r canllawiau.

(3) Rhaid i'r Prif Weinidog benderfynu ar y cyfnod cyn yr etholiad ar gyfer etholiad 2021 at ddiben yr adran hon.

(4) Rhaid i'r cyfnod y penderfynir arno gynnwys y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod a bennir ar gyfer cynnal y pôl ar gyfer etholiad 2021.

(5) Rhaid i'r canllawiau gael eu cyhoeddi cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 17.3.2021, gweler **a. 18**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, Adran 4.